**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**30/01/2026**

1000 – 1430

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudhry Van der Velde, Julian Edwards, Peter Strachan

**Hefyd yn bresennol**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

**2. Sylw i ddiogelwch**.
Trafododd y Bwrdd reoli coedlin, gan nodi camau blaenoriaeth i fynd i'r afael â risgiau llystyfiant ar ochr y cledrau a phwysleisio'r angen am reolaeth barhaus, cyllid priodol, [redacted] ochr yn ochr â thrafod cynigion cynnal a chadw rhagweithiol posibl. Nodwyd ystyriaethau gweithredol, diogelwch a mynediad, gan gynnwys gwaith clirio diweddar, heriau mewn lleoliadau penodol, a'r angen i fodelu gwelliannau perfformiad sy'n deillio o'r cynllun. Trafodwyd prosesau adrodd rheng flaen a chost plannu llystyfiant amgen. [**NM i weithredu. Darparu eitem llinell gyda golwg fanwl ar risgiau, camau gweithredu ac effaith ar berfformiad**].

**3. Sylw i gwsmeriaid**
Nododd y Bwrdd adborth cryf a chadarnhaol o sesiwn graffu ddiweddar Llywodraeth Cymru a thrafododd yr heriau sydd ar y gweill. Roedd y drafodaeth yn ymdrin â'r berthynas rhwng newidiadau lefel gwasanaeth, cymhorthdal gweithredu, a thybiaethau refeniw, ynghyd â'r angen i gymhwyso strategaeth deiran yn rhanbarthol. Adolygwyd materion perfformiad ochr yn ochr â diddordeb disgwyliedig y bwrdd mewn targedau a'r gallu i'w cyflawni. Trafododd y Bwrdd ehangu mentrau cymhleth a sicrhau amcanestyniadau refeniw sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar lwybr y Gororau, gan nodi bod archwiliad dwfn ar y gweill. Mae angen cynllun cyflawni clir ar gyfer y Gororau, gydag achos prawf i'w gyflwyno **[MD i weithredu]**. Bydd cynlluniau rhwydwaith manwl pellach hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**
Cymeradwywyd cofnodion 2 Ionawr 2026 yn amodol ar ddiwygiadau. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**
Trafododd y Bwrdd weithredu'r amserlen newydd a gwasanaethau ychwanegol, gan nodi gwreiddio cryf a pherfformiad gweithredol cadarn er gwaethaf digwyddiadau ynysig, gan gynnwys methiannau rhifyddion echelau, problemau pwyntiau, tywydd garw, a threfniannau byr. Yn gyffredinol, roedd y perfformiad yn gryf, gyda sgoriau PTL uchel, cynnydd yn nifer y teithwyr, a nifer o lwybrau'n cyflawni eu canlyniadau gorau yn ystod y cyfnodau diwethaf. [redacted]

[redacted]

Mae methiannau seilwaith yn dal i gael eu harchwilio, a thrafodwyd ymgysylltiad arweinwyr a chysondeb strwythurol o ran rheoli perfformiad.

**6. Adroddiad Diogelwch**

Trafododd y Bwrydd ymosodiadau ar y [redacted] Roedd staff benywaidd yn cynrychioli 17% o'r dioddefwyr er eu bod yn 30% o'r gweithwyr gweithredol, ac mae dros draean o gydweithwyr wedi dioddef ymosodiad, gan ysgogi adolygiad o hyfforddiant lliniaru. Trafododd y Bwrdd swyddi gwag rheng flaen yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a disgwyliadau camerâu corff [redacted] teithio yn ôl a gorfodi gwaharddiadau ar draws lleoliadau. Cadarnhaodd y Bwrdd gefnogaeth lawn i staff sy'n mynd ar drywydd cyhuddiadau, trafodwyd rhwystrau i ddefnyddio camera, a gofynnodd am ragor o waith ar gylch bywyd ymosodiadau a lefelau dwyn ar y rhwydwaith - hyfforddiant uwchgyfeirio.

**7. Adolygiad Cyllid Cyfnodol**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn, [redacted]

**8. Diweddariad Masnachol**

Adolygodd y Bwrdd berfformiad refeniw, [redacted]

**8.1 Refeniw Traws Cymru**

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar Refeniw Traws.

**9. Diweddariad ar Farchnata**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am a thrafodwyd gwella bygiau prynu teithiau gyda TG, gwella ymatebion i adolygiadau, anfon ceisiadau adborth ar ôl teithio, a chysoni negeseuon i gwsmeriaid ar faterion fel gorlenwi. Mae'r gwaith o fonitro perfformiad gweithredwyr eraill yn parhau, gyda phwyslais ar barhau i fod yn driw, a chydnabod timau rheng flaen.

**10. Unrhyw Fater Arall**

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**